



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE

COVID-19

Bwyd a Diod Cymru

Cefnogi adferiad busnesau a chadwyni cyflenwi ar ôl Covid-19



Gyda'n Gilydd Cadwn Gymru'n Ddiogel

Gorffennaf 2020



Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales



ISBN digidol: 978 1 80038 956 4 WG40828 © Hawlfraint y Goron 2020

Ein hamcan	2
Y Cyd-destun	3
Camau gweithredu â blaenoriaeth	4
Ffigur 1: Ein nodau strategol hirdymor	6

Ein hamcan

Mae Covid-19 yn effeithio'n aruthrol ar sector bwyd a diod Cymru ac mae'n bygwth parhad busnesau. Mae Llywodraeth Cymru a Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru eisoes yn cymryd camau i gefnogi'r sector drwy'r effaith gychwynnol hyd at gamau cyntaf yr adferiad. Er mwyn cyflawni hyn mae gennym rai amcanion syml:

1. Sicrhau bod cynifer â phosibl o fusnesau bwyd a diod yn goroesi'r anawsterau cychwynnol a achoswyd gan Covid-19 a chynnal rhwydweithiau'r cadwyni cyflenwi yn y sector ac mewn meysydd cysylltiedig.
2. Lleihau'r colledion swyddi yn y sector.
3. Cefnogi'r sector i ddod at ei hun cyn gynted â phosibl nes bod gwerthiant yn cynyddu unwaith eto.
4. Targedu'r cymorth at atebion sy'n cyd-fynd â'r farchnad ac sy'n adlewyrchu'r newid yn y dirwedd fasnachu lle mae risg ychwanegol hefyd o darfu yn sgil Brexit.
5. Aros ar y llwybr tuag at ein nodau strategol hirdymor.

Rydym yn wynebu her gyfochrog ymadael â'r UE a chanlyniad y trafodaethau masnach – rhywbeth sy'n amhosibl ei ragweld ar hyn o bryd. Beth bynnag fo'r canlyniad, mae'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun hwn yn briodol er cefnogi busnesau drwy'r newid.

Rydym yn tynnu sylw at y camau rydym yn eu cymryd ar hyn o bryd neu y byddwn yn cychwyn arnynt yn y dyfodol agos, a thros y misoedd dilynol hefyd, i gefnogi adferiad hyd at Basg 2021. Nid ydym yn gosod amserlenni penodol oherwydd bod y sefyllfa'n ddeinamig. Rydym yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar sefydlogi ein sector cyn gynted â phosibl ac wedyn ar gymryd y camau i wella yn ystod y misoedd dilynol i mewn i 2021. Felly, nid ydym yn sôn am faterion yn fanwl nac yn cynnwys popeth a fyddai'n berthnasol i strategaeth hirdymor na chynllun manwl i gefnogi'r diwydiant bwyd a diod.

Y Cyd-destun

2020 yw'r flwyddyn yr ydym yn cwblhau **'Tuag at Dwf Cynaliadwy'** ([https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/sites/foodanddrink/files/documents/Tuag at Dwf Cynaliadwy - Cynllun Gweithredu ar Gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020 %28T%29.pdf](https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/sites/foodanddrink/files/documents/Tuag%20at%20Dwf%20Cynaliadwy%20-%20Cynllun%20Gweithredu%20ar%20Cyfer%20y%20Diwydiant%20Bwyd%20a%20Diod%202014-2020%20%28T%29.pdf)) ein cynllun gweithredu er 2014 sydd wedi rhoi'r strategaeth a bennwyd yn 2010 ar waith. Ddechrau'r flwyddyn eleni, roeddem wedi cyrraedd prif darged Tuag at Dwf Cynaliadwy, sef bod y sector blaenoriaeth bwyd a ffermio yn cyrraedd £7 biliwn o werthiannau erbyn 2020. Gyda thwf mawr mewn gwerthiant, gwnaethom chwalu'r targed gan gyrraedd £7.473 biliwn erbyn 2020. Rydym wedi cyflawni llawer mwy na thwf ariannol – proffil uwch i'r sector, cynnydd mewn allforio, gwell cynaliadwyedd, a rhwydweithiau a chlystyrau cryfach yn ein cadwyni cyflenwi. Mae'r sector wedi mynd o nerth i nerth.

Ond mae Covid-19 wedi cael effaith sydyn ac enfawr ar bob un bron o'n busnesau a'n cadwyni cyflenwi, beth bynnag fo'u maint. **Rydym yn wynebu her enfawr**. Mae'n bygwth goroesiad busnesau unigol ac yn bygwth ein llwyddiant ni i gyd ar y cyd. Gellir gweld maint a natur yr effaith uniongyrchol fel hyn¹:

- Gostyngiad o £190m (27%) yng nghyfanswm gwerthiant bwyd a diod (pob sianel).
- Patrymau prynu yn newid yn aruthrol, gyda gwerthiant nwyddau groser wedi codi £38m (10.7%) ond mae cyfanswm y gwariant ar fwyd a diod oddeutu 20% yn is nag arfer am fod y sector gwasanaeth wedi cau bron yn llwyr.
- Mae patrymau siopa wedi newid ledled y DU gyda phobl yn rhoi blaenoriaeth i sianeli ar-lein a siopau cyfleustra (cynnydd o 43% a 40% yn y drefn honno).

Yn ein sector busnes, mae gwaith arolwg cychwynnol² wedi canfod:

- Effaith sylweddol ar fusnesau o bob maint a sector, gydag effaith negyddol ddifrifol ar werthiant (39% o'r ymatebwyr), elw (46%), a chwsmeriaid (39%).
- Mae cwmnïau gwasanaethau bwyd a llwybrau eraill, fel cyfanwerthu, wedi rhoi'r gorau i weithredu a phrofwyd effaith sylweddol ar bob lefel yn y sector, yn enwedig ymysg cyfanwerthwyr bwyd a diod.
- Mae anawsterau yn y gadwyn gyflenwi yn arbennig o amlwg mewn is-sectorau fel cig coch, llaeth a garddwriaeth.

Er ein bod yn canolbwyntio ar y tymor byr ar hyn o bryd, ni fyddwn yn colli golwg ar ein huchelgeisiau hirdymor. Yn 2019 fe **wnaethom ni ymgynghori ar strategaeth newydd** (<https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2019-07/food-and-drink-consultation-document.pdf>) ar gyfer sector bwyd a diod Cymru a chafodd ein gweledigaeth a'n cenhadaeth arfaethedig dderbyniad da iawn. Mae Llywodraeth Cymru a Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru wedi ymrwymo iddynt o hyd. Pan fydd yr amseru'n iawn, byddwn yn cwblhau ein cynigion ar eu gwedd derfynol ac yn eu cyhoeddi. Pan gyhoeddir y strategaeth, bydd y weledigaeth, y genhadaeth a'r ffyrdd o weithio y gwnaethom eu cynnig ac ymgynghori yn eu cylch yn 2019 yn ganolog iddi. Bydd yn datblygu ffyniant a llwyddiant y sector mewn ffyrdd sy'n dod â manteision eang (gweler y crynodeb yn **ffigur 1**).

Mae'r camau gweithredu tymor byr a chanolig a ddisgrifir yn y Cynllun Adfer Covid-19 hwn yn gamau cyntaf ar lwybr y weledigaeth a'r genhadaeth hon (**ffigur 1**).

¹ Daw'r holl ffigurau o adroddiad Brookdale Consulting/Categori Insight ar gyfer Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio data Kantar.

² Arolwg Arloesi Bwyd Cymru Mai 2020 o 251 o broseswyr a gweithgynhyrchu bwyd o Gymru sy'n cynrychioli'r sector cyfan.

Camau gweithredu â blaenoriaeth

Y flaenoriaeth yn y lle cyntaf yw llywio'r sector drwy Covid-19 wrth i effaith y feirws ddatblygu er mwyn i fusnesau a rhwydweithiau ein cadwyni cyflenwi oroesi.

Byddwn yn canolbwyntio'n ddiflino ar y camau gweithredu canlynol sydd i ddechrau ar unwaith os nad ydynt eisoes ar waith. Byddwn yn parhau â'r rhain cyn hired ag y bydd Covid-19 a gadael yr UE yn effeithio ar y sector.

1. Byddwn yn monitro **gwybodaeth am y farchnad** yn drwyadl, gan ddefnyddio data sy'n ymwneud â marchnadoedd a thueddiadau defnyddwyr yn y DU ac yn rhyngwladol, a gwybodaeth arolygu o Gymru sy'n fwy cynhwysfawr oherwydd y cysylltiad agos â busnesau, i ragweld newid a sicrhau bod y sector mewn safle da. Bydd ein holl gamau gweithredu a chymorth yn cael eu seilio ar wybodaeth am y farchnad. Byddwn yn rhoi gwybodaeth gyfredol a chynhwysfawr i fusnesau am y farchnad un ai 1:1 neu drwy ein rhaglen a'n rhwydweithiau clwstwr.
2. Byddwn yn darparu mwy o **gyngor busnes ymarferol** sy'n hanfodol i oroesi – arweinyddiaeth, marchnata, cynllunio busnes, rheolaeth ariannol, gwella cynhyrchiant, arloesi/defnyddio technoleg, sicrhau diogelwch, ailffurfio cynnyrch, rheoli cysylltiadau â phrynwyr a chyflenwyr, cynllunio risg, a heriau gweithredol rhedeg busnes ar adeg o gadw pellter cymdeithasol a phroffion tracio ac olrhain.
3. Byddwn yn blaenoriaethu cymorth a chyngor ynghylch datblygu sianeli **gwerthu ar-lein** a marchnata cynnyrch yn llwyddiannus drwy gyfrwng gwasanaethau ar-lein boed hynny'n Uniongyrchol i Ddefnyddwyr neu drwy gyfryngwr. Rydym yn argyhoeddedig bod Covid-19 wedi arwain at newid tymor hir i weithredu ar-lein.
4. Byddwn yn canolbwyntio ar **wella cynhyrchiant, cadernid busnes a threfniadau rheoli risg** busnesau a chadwyni cyflenwi ym mhob ffordd drwy fuddsoddiad wedi'i dargedu mewn pobl a thechnoleg, megis gwella awtomeiddio, rhagoriaeth dechnegol, egwyddorion darbodus, cydweithio/clystyrau, arbedion effeithlonrwydd a geir drwy arferion cynaliadwy a datblygu'r gweithlu.
5. Byddwn yn cefnogi busnesau a chadwyni cyflenwi i **ychwanegu gwerth** ar sail ymchwil, cyfleoedd marchnad a thrwy weithio gyda'n partneriaid ymchwil, arloesi a datblygu cynnyrch. Byddwn hefyd yn ychwanegu gwerth drwy greu brand bwyd a diod cryf ac ystyrlon i Gymru, gan adeiladu ar yr hyn sy'n arbennig yn ein cynnyrch, yn cynnwys ein hymrwymiad i gynaliadwyedd yn y gadwyn fwyd.
6. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gynorthwyo gweithgynhyrchwyr bwyd a diod hyfyw a chryf i oroesi a thyfu ac i fod yn ymwybodol o'r angen busnes am **gyllid fforddiadwy** i alluogi buddsoddiad ac i wasanaethu dyledion cynyddol oherwydd pwysau Covid 19 ar lif arian a rhoi camau lliniaru ar waith.
7. Byddwn yn annog pobl i fanteisio ar **achrediaidau diwydiant** sy'n cael eu cydnabod yn eang (yn enwedig Salsa a BRC) er mwyn i'n cynhyrchwyr gael mwy o gyfleoedd yn y farchnad.
8. Byddwn yn diwygio ein **Cynllun Manwerthu** i sicrhau ei fod yn adlewyrchu heriau a chyfleoedd Covid-19 ac yn cynyddu'r ymgysylltu â phrynwyr mawr yn y DU.
9. Byddwn yn cynnal ein presenoldeb **masnachu byd-eang** a brand Cymru drwy ymgysylltu rhithiol â phrynwyr masnach dramor a thrwy ein prif ddigwyddiad, Blas Cymru, yn 2021.

-
10. Byddwn yn targedu buddsoddiad at fusnesau sydd â **modelau busnes cynaliadwy** ac economaidd cryf i greu strategaethau llwyddiannus ar ôl Covid19, gan ganolbwyntio ar farchnadoedd y DU a/neu allforio, cyfleoedd caffael cyhoeddus a'r economi werdd sy'n tyfu. Dylai'r busnesau hyn sicrhau eu bod yn gallu dangos tystiolaeth o arferion gorau ac ymrwymadau i'r nodau hyn i gefnogi ein hymrwymiad i Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
 11. Bydd y Bwrdd Bwyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid i hyrwyddo'r sector bwyd fel **lle da i weithio, hyfforddi a datblygu sgiliau newydd** ac yn annog datblygu'r gweithlu a'u harweinwyr o ystyried statws y diwydiant hwn fel diwydiant o 'weithwyr allweddol'.

Ffigur 1: Ein nodau strategol hirdymor

Ein man cychwyn:

Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant Tuag at Dwf Cynaliadwy. Mae ein sector wedi tyfu, ein hallforion yn ffynnu ac mae enw da amrywiaeth busnesau a chynhyrchion Cymru yn mynd o nerth i nerth.

Heriau dybryd:

Mae Covid-19 wedi bwrw ein sector yn galed. Rydym yn creu darlun o'r effaith ac yn asesu'r newidiadau byrdymor a rhai hirdymor. Dros y tymor byr a chanolig, rhaid inni ganolbwyntio ar adfer a chefnogi busnesau i lwyddo mewn byd sydd wedi newid.

Mae diwedd cyfnod pontio Brexit yn ansicr a rhaid inni hefyd fod yn barod am Brexit heb un cytundeb neu gyda chytundeb â'r UE. Mae'r amrywiaeth o ganlyniadau yn cyflwyno heriau i gadwyni cyflenwi ac i ddull ein sector o weithredu.

Ein gweledigaeth yw creu sector bwyd a diod cadarn a ffyniannus yng Nghymru sydd ag enw da am ei ragoriaeth ac am gael un o'r cadwyni cyflenwi mwyaf amgylcheddol a chymdeithasol gyfrifol yn y byd.

Ein bwriad yw datblygu diwydiant bwyd a diod ffyniannus drwy gydweithio â'r sector i:

Gynyddu maint, gwerth a chynhyrchiant ein busnesau, drwy dargedu buddsoddiadau, cymorth, arloesedd a gweithgarwch cydweithredol drwy gadwyni cyflenwi, a thrwy greu llwybrau cadarn ac amrywiol i farchnadoedd y DU a marchnadoedd allforio.

Bod o fudd i'n pobl a'n cymdeithas drwy ddarparu gyrfaoedd deniadol a gwaith teg, sy'n ymrwymedig i ddatblygu sgiliau'r gweithlu, gan ddefnyddio adnoddau'n gynaliadwy ac annog busnesau i chwarae rhan mewn mynd i'r afael ag iechyd thlodi..

Creu a chyfathrebu enw da Cymru fel Cenedl Fwyd ar draws y byd gan arddangos ein sector drwy Blas Cymru, gan ddatblygu a byw gwerthoedd ein brand cynaliadwy, mabwysiadu'n eang safonau cynhyrchu ac achredu uchel, a dathlu llwyddiannau busnesau.

Sut y byddwn yn gwneud ein gwaith

Bydd ein gwaith yn seiliedig ar bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Bwyd, drwy ein clystyrau busnes, cadwyni cyflenwi, a phrynwyr a phartneriaid mewn llwybrau â ffocws i'r farchnad. Byddwn yn manteisio ar arbenigedd technegol ac academiaidd i sicrhau twf cynaliadwy sy'n seiliedig ar egwyddorion **Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Ffyniant i Bawb**.

Byddwn yn helpu ein sector i lywio ein cymdeithas sy'n newid gyda ffocws cynyddol ar ddata i ddeall a gwasanaethu ein bywydau hyblyg, cyfrifoldeb cynaliadwy, ein byd digidol sy'n ehangu, gwella ein profiadau, meithrin ymddiriedaeth a hunaniaeth a byw'n dda.

Byddwn yn gwneud dull 'rhywbeth am rywbeth' yn amodol wrth fuddsoddi yn ein busnesau, gan hyrwyddo gwerthoedd brand cynaliadwy drwy ein cynhyrchion a chadwyni cyflenwi cryfach, a cheisio ychwanegu gwerth i Gymru.

Bydd busnesau Cymreig o bob maint yn parhau eu taith i fod yn uchelgeisiol, proffesiynol a blaengar, ac i roi'r cwsmer yn gyntaf.